

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lon Garnedd, Abergele, LL22 7EW Ffon : 01745 826901 Sym :
07903328655 e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.30y.h. DDYDD MERCHER, MEHEFIN 8fed, 2016, YN NEUADD Y PENTREF, BETWS YN RHOS.

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, Y Cynghorydd Tudur W. Jones; yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Hefin Williams, a'r Cynghorwyr Goronwy Davies; Irwedd Griffiths; D.Gwyn Jones; Ifor O.Jones; Gwyndaf O.Roberts; a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.

3. YMDDIHEURIADAU - Y Cynghorwyr Eifion Evans; Bryn Jones; John D.Roberts; a Goronwy R.Williams

4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB - datganodd y Cynghorwyr D.Rhys Davies; Tudur W. Jones; Ifor O.Jones a Hefin Williams ddiddordeb yng nghais cynllunio 6.16/16(iv) 0/42814 - maen nhw'n perthyn i'r sawl sy'n gwneud y cais.

5. MU NUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Fai 4ydd, 2016, yn Neuadd y Pentref, Betws yn Rhos.

6. MATERION YN CODI
 - 8.15/14(iii) Yr arwydd uwchben Ysbyty Abergele
 - 9.15/14(i) Cwyn ynglŷn â'r llwybr cyhoeddus yn Ffordd Meifod.
 - 9.15/14(ii) Cwyn ynglŷn â ffromlys chwarennog (Himalayan balsam) yn Rhyd-y-Foel. Cwyn GF24001
 - 9.15/14(iv) Cwyn ynglŷn â diffyg arwyddion ar giat y cae chwarae. Cwyn GF24001
 - 11.15/14(i) Cwyn ynglŷn â'r mat ar y cae chwarae yn Llanelian. Cwyn GF24001.
 - 1.16/14(iii) Roedd ceir yn cael eu parcio wrth Ogwen Cottage, sy'n rhan gul o'r ffordd, ynghyd â brig allt, gan ei gwneud yn beryglus i ddefnyddwyr ffordd eraill.
 - 1.16/14(iv) Cwyn ynglŷn â thyllau ffordd ar y groesffordd wrth Gae Borth.
 - 1.16/14(v) Arllwys sbwriel ar ffordd Pen-y-Bryn i Benrefail.

1.16/14(vii) Adroddiad bod y bont wrth y Lodge wedi ei thanseilio'n ystod y llifogydd diweddar.

1.16/14(x) Cwyn ynglŷn â sbwriel ym Mryn-y-Maen.

Mae'r cwynion uchod i gyd yn achos cais gwasanaeth i Rif GF24521 Cyngor Sir Conwy, ac fe'i rhoir ar yr Archwiliad Ward, onibai y bydd wedi ei gwblhau. Dywedodd y Cyngorydd Sir, Ifor G.Lloyd y byddai popeth wedi cael ei drin yn y man, a bod y sbwriel y cyfeiriwyd ato, rhif 1.16/14(x), ym Mryn-y-Maen, wedi ei glirio.

7. GOHEBIAETH GYFFREDINOL -

8. 6.16/7(i) PENDERFYNWYD NODI'r ohebiaeth gan Fields in Trust.

6.16/7(ii) PENDERFYNWYD NODI cyrsiau ar gael yn academi sgiliau Glasdir.

6.16/7(iii) Roedd llythyr gan Gyngor Sir Conwy ynglŷn â phartneriaeth bagiau tywod wedi ei dderbyn. Tynnodd y Clerc sylw'r aelodau at gyngor a gafwyd gan Un Llais Cymru ynglŷn â'r materion cyfreithiol ac Iechyd a Diogelwch ynghlwm wrth y math yma o bartneriaeth. PENDERFYNWYD GOHIRIO'r mater hwn hyd nes y ceid mwy o wybodaeth.

9. CYLLID - PENDERFYNWYD NODI AC ARWYDDO'r adroddiadau Banc am y cyfnod yn gorffen Mai 21ain, 2016, sef:-

Cyfrif Cymunedol.....£23386.20

Cyfrif Busnes.....£5523.58

Dywedodd y Clerc fod y cyfrif Cymunedol bellach wedi derbyn y £15,000 o adeiladu'r parc heulol, ac y byddai'n rhaid i'r Cyngor yn awr benderfynu sut y byddai'r arian yma'n cael ei ddsbarthu.

10. TALIADAU A DDERBYNIWYD - PENDERFYNWYD TALU pob eitem a restrir fel 6.16/9(i)(ii)(iii)

11. TALIADAU A WNAED

i. 6.16/10(i) Cyflog y Clerc.....£ 287.23

ii.	6.16/10(ii) HMRC...(Bacs).....	£ 71.81
iii.	6.16/10(iii) Cyfieithu 1/2 y cyfan.....	£ 17.50
iv.	6.16/10(iv) Treuliau'r Clerc (chwarter).....	£ 104.19
v.	6.16/10(v) Deunyddiau ysgrifennu.....	£ 49.12
vi.	6.16/10(vi) Cradur.com	£ 25.00
vii.	6.16/10(vii) Aelodaeth CVSC	£ 15.00
viii.	6.16/10(viii) Cylch Meithrin, Betws yn Rhos.....	£ 300.00^
ix.	6.16/10(ix) Mynwent Trofarth	£ 400.00^
x.	6.16/10(x) Owain Williams.....	£ 100.00^
xi.	6.16/10(xi) Mynwent Newydd, Betws yn Rhos.....	£ 500.00^
xii.	6.16/10(xii) Eisteddfod Calan Mai.....	£ 300.00^
xiii.	6.16/10(xiii) Clwb yr Henoed, Llanelian.....	£ 300.00^
xiv.	6.16/10(xiv) Clwb yr Henoed, Betws yn Rhos.....	£ 300.00^
xv.	6.16/10(xv) Pwyllgor neuadd y pentref, Llanelian ...	£ 250.00^

PENDERFYNWYD TALU POB EITEM A RESTRIR UCHOD

12. CEISIADAU AM GRANT - Dim.

13. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Adroddodd y Cynghorydd Lloyd ei fod wedi cyfarfod gyda swyddogion yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, a dystiodd fod yna ddiffyg o £200,000 yn eu cyllid, ac na fyddai unrhyw waith bychan yn cael ei gyflawni. Roedd o hefyd wedi ceisio cyfarfod yr adran adeiladwaith ynghylch gwaith i'w wneud ar y difrod a wnaed gan lifogydd i Bont y Lodge, ond ni lwyddodd. Dywedodd yn ogystal fod parapet y bont wedi ei drwsio.

14. MATERION CYNULLIAD CYMRU - Dim.

15. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED

9.15/14(iii) Sefydlu pwyllgor i oruchwylio arian y grant gan y parc heulol.
PENDERFYNWYD cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor ym mis Medi i benderfynu ar faterion cysylltiedig efo'r arian.

16. UNRHYW FATER ARALL

6.16/15(i) Llythyr at yr Eglwys ynglŷn â wal yr Eglwys. Tynnodd y Clerc sylw'r aelodau at yr e-bost a anfonwyd at y ficer, y Parch. Sally Rogers, a oedd wedi ateb i ddweud ei bod wedi trosglwyddo'r mater i wardeniaid yr eglwys.

17. CYNLLUNIO -

18. 6.16/16(i) 0/42596 Codi garej ym Mhen y Geulan. Cais wedi ei dynnu'n ôl. NODWYD.

6.16/16(ii) 0/42594 Troi stablau'n lleoedd aros gwyliau ym Mhen y Geulan. Cais wedi ei dynnu'n ôl. NODWYD.

6.16/16(iii) 0/42653 Estyniadau arfaethedig i annedd yn Nant Ucha, Ffordd Nentydd, Rhyd-y-Foel. Cais wedi ei dynnu'n ôl. NODWYD.

6.16/16(iv) 0/42814 Tystysgrif cyfreithlonedd ar gyfer defnydd presennol o dir fel safle ar gyfer carafanau symudol a gwersylla, ac adeilad mwynderau cysylltiol ym Mryn Ffanigl Ganol, Rhyd-y-Foel. Ymadawodd Mr. a Mrs B. Jones, y Cynghorwyr Tudur W. Jones, Ifor O. Jones, Hefin Williams a D. Rhys Davies a'r cyfarfod bryd hyn, gan fod raid i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd adael y cyfarfod. Etholodd y gweddill o'r Cynghorwyr y Cynghorydd Gwyndaf O. Roberts i'r gadair i ddelio gyda'r mater hwn. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD. Yna fe ail-ymunodd y Cynghorwyr â'r cyfarfod ac ail-gydiodd y Cynghorydd Tudur W. Jones yn y gadeiryddiaeth.

6.16/16(v) 0/42817 Amrywiad ar amod rhif 3 caniatâd cynllunio dan gôd 0/41686 (estyniad i gartref presennol ar gyfer defnydd preifat) i gynnwys defnydd masnachol yn Fferm Oak Tree, Ffordd Ffynhonnau, Betws yn Rhos. Mrs E. Parry. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

6.16/16(vi) 0/42343 Datblygu tir gyferbyn â Bryn Rhodyn, Hen Golwyn. Ar gyfer tai annedd (caniatâd cynllunio bras) (cam 2) . Mr. H. Featherstonehaugh. PENDERFYNWYD GWRTHWYNEBU am yr holl resymau a nodwyd mewn ceisiadau blaenorol, sef:-

1. Gor-ddatblygu'r safle a'r ardal o gwmpas.

2. Nid yw'r isadeiledd lleol yn gallu cynnal yr holl anheddau ychwanegol hyn.

3 Dymunodd y Cyngor gadarnhau fod y datblygiad hwn yn y CDLL a'i fod o fewn ffin anheddfa.

4. Nid oedd gwybodaeth ynglŷn â'r nifer o anheddau fforddiadwy.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod fe orffennodd y cyfarfod am 9.55y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....
.....